Rhaglen y Gêm / Matchday Programme

# Y FELINHELI v RHOSTYLLEN

CLWB PÊL-DROED Y FELINHELI 1977

RHOSTYLLEN FC 1879




**Ardal North West**
**Sadwrn / Saturday**
**Cae Seilo, Y Felinheli**

## 27.11.21
## 2.00PM

NW ARDAL

LOCK STOCK SELF STORAGE




NW ARDAL

LOCK STOCK
SELF STORAGE

# ANRHYDEDDAU'R CLWB
# CLUB HONORS

## Enillwyr / Winners

| | |
|---|---|
| Welsh Alliance League Division 2 | 2019-20 |
| Gwynedd League | 1983-84, 2000-01, 2015-16 |
| Caernarfon & District League | 1981-82, 1982-83, 2013-14 |
| NWCFA Challenge Cup | 1987-88 |
| NWCFA Junior Cup | 2012-13, 2013-14 |
| Welsh Alliance League Barritt Cup | 1999-2000 |
| Welsh Alliance League Alves Cup | 1991-92 |
| Welsh Alliance League Lock Stock Cup | 2018-19 |
| Gwynedd Cup | 1984-85, 2015-16 |
| Caernarfon & District League Alves Cup | 1981-82 |
| Caernarfon & District League Mooring Cup | 1981-82 |
| Caernarfon & District League Will Evans Cup | 1982-83 |
| Caernarfon & District League Llun Mewn Ffram Cup | 2013-14 |

## Ail / Runner-up

| | |
|---|---|
| Welsh Alliance League | 1991-92 |
| Caernarfon & District League | 2011-12, 2012-13 |
| NWCFA Challenge Cup | 1988-89, 1989-90 |
| NWCFA Junior Cup | 1985-86, 1994-95 |
| Welsh Alliance League Barritt Cup | 1981-82 |
| Welsh Alliance League Alves Cup | 1983-84, 2000-01 |
| Caernarfon & District League Alves Cup | 1978-79 |

Delwedd
websites that work
gwefannau sy'n gweithio
delwedd.co.uk | post@delwedd.co.uk | 01286 727 227

swyddle
recriwtio • hysbysebu

Shed.
GOFOD CREADIGOL

SFP
SNOWDONIA FIRE PROTECTION

# Y GWRTHWYNEBWYR
# MEET THE OPPOSITION

# RHOSTYLLEN

## HANES Y CLWB

The first football club in Rhostyllen dates back to 1879 and existed until 1881. The Club then reformed as Rhostyllen Victoria in 1881 and contested the Welsh Cup.

The current incarnation were formed in 2015, and began playing in the 2015–16 season in the North East Wales League, a competition which it won.

The following season, the team achieved second consecutive promotion when it finished second in the Welsh National League Division One. The club spend 4 years playing in the Welsh national premier before being placed in the Ardal Northern West League in 2020.

## Rheolwr / Manager

Warren Aykroyd-Duckett

## Cae / Ground

The Rec




Secta


50
KITCHEN MEDIC


KITCHEN
MEDIC





# Y FELINHELI 1
# RHYDYMWYN 0

**20.11.21 - Ardal North West, Cae Seilo**






IRISH BAR

# TIMAU / LINEUPS







Lluniau / Pictures: Phil Stead

**CPD Y Felinheli FC – Rhydymwyn FC**
20. Nov 2021, 14:00

**1 : 0**

TIMELINE | LINEUP | INFO

| # | CPD Y Felinheli FC | Rhydymwyn FC | # |
|---|---|---|---|
| 1 | HUGHES G. G | SUTCLIFFE K. G | 1 |
| 2 | JAPHETH C. | HARTE K. | 2 |
| 3 | CAIN R. | EDWARDS R. | 3 |
| 4 | GRIFFITH A. C | MASSEY H. | 4 |
| 5 | JONES D. | WHELAN C. C | 5 |
| 6 | RHODRI DAFYDD | JONES R. | 6 |
| 7 | LLOYD-JONES G. | BECK J. | 7 |
| 8 | JOHN G. | DUNN R. | 8 |
| 9 | OWEN I. | NELSON S. | 9 |
| 10 | EDWARDS I. | ROGERS I. | 10 |
| 11 | EMYR A. | MENDOZA N. | 11 |

Substitutions

| # | CPD Y Felinheli FC | Rhydymwyn FC | # |
|---|---|---|---|
| 12 | BROWN C. | HALEY S. | 12 |
| 14 | DAFYDD C. | GUEST M. | 13 |
| 15 | JONES R. | MANLEY O. | 14 |
| 16 | DAVIES E. | BRADLEY C. | 15 |
| 17 | OWEN D. | SWANN-JONES N. | 16 |

Team officials

| CPD Y Felinheli FC | Rhydymwyn FC |
|---|---|
| OWEN I. Assistant Manager | TARREN S. Coach |
| WILLIAMS E. First Aider | N/A Coach |
| DAVIES E. First Team Manager | WEAVER A. First Team Manager |
| | PARRY J. First Team Manager |

BDS GWYNEDD

ROBERTS
OF PORT DINORWIC
EST 1924

SIONED MAI
cyfieithu

01492 641 861
CONWY VALLEY MEATS
MEAT WHOLESALERS



# PORTHMADOG 8 Y FELINHELI 0

## 05.11.21 - Ardal North West, Y Traeth

**Roedd hi yn reit braf cael mynd i chwarae gêm o dan oleuadau ar nos Wener mewn cae peldroed go iawn, efo tyrfa dda (tua 250). Ond gyda Iwan Eds a Aled Pob ddim ar gael oherwydd syspenshons, ac Ifan Em yn gorfod hunan ynysu ar ol Covid, roedd hon yn mynd i fod yn anodd i ddweud y lleiaf. Tîm pentra lle mae pawb yn chwarae am eu bod yn caru'r clwb a'r gêm beldroed, yn erbyn clwb tref lle roedd pawb yn chwarae am arian mawr.**

Daeth y gôl gyntaf ar ol 13 munud, yn dilyn cwpwl o arbediadau gwych gan Guto, cyn i'r bel gael ei chroesi i'r postyn pellaf, lle oedd John Littlemore i benio yn gadarn i'r rhwyd. Daeth gôl y gêm, os nad gol y tymor, ar ol 18 munud, Rhys Alun Williams yn rhedeg drwy amddiffyn Felin o'r llinell hanner i sgorio gôl anhygoel. Peniad arall, gan Julian Williams y tro yma, o'r un lle â'r gol gyntaf ar ol 26 munud i gwblhau y sgorio yn yr hanner cyntaf, 3-0. Toedd y reff heb fod yn gareding i Felin chwaith, felly clod i'r hogiau am ddal ati.

Aeth hanner awr cyntaf yr ail hanner reit dda i Felin. Gweithiodd yr hogia yn hynod o galed i rwystro Port ond hefyd

yn chwarae peldroed ddigon taclus ac yn creu ambell i gyfle. Tarodd Iw Bonc y postyn  gyda'r golgeidwad wedi ei guro, ond toedd lwc ddim ar ochor Felin.

Gyda llai na chwarter awr i fynd, daeth pedwerydd Port, Matty Jones yn rhwydo. Efallai fod hyn wedi torri calon yr hogia, oherwydd erbyn ddiwedd y gêm, roedd Matty Jones wedi sgorio tair arall ynghyd ag assist i Julian Williams. 8-0  yn y diwedd, ac efallai ychydig yn anheg ar Felin, oedd wedi rhoi gêm galed i'r galacticos tan y chwarter awr olaf.

Rhaid anghofio am y noson ac edrych ymlaen i'r gemau cartref yn erbyn Rhydymwyn a Rhostyllen- mae angen pigo pwyntiau i fyny yn y gemau hyn os am aros yn y gynghrair.



Adroddiad gêm

# GWIL JOHN





# TIMAU / LINEUPS







Lluniau / Pictures: Phil Stead

**Porthmadog FC – CPD Y Felinheli FC**
5. Nov 2021. 19:45

**8 : 0**

TIMELINE | LINEUP | INFO

| | Porthmadog FC | CPD Y Felinheli FC | |
|---|---|---|---|
| 1 | DYLAN ROBERTS G | HUGHES G. G | 1 |
| 2 | GARETH JONES-EVANS C A2 | JONES I. ↓ | 2 |
| 3 | JOSH BANKS A ↓ | CAIN R. | 3 |
| 4 | JAMES MORGAN | JAPHETH C. | 4 |
| 5 | KEMPSTER S. | JONES D. | 5 |
| 6 | STUART ROGERS | JONES L. 🟨 | 6 |
| 9 | MATTY JONES ⚽4 A | LLOYD-JONES G. | 7 |
| 10 | JOHN LITTLEMORE ⚽ ↓ | JOHN G. 🟨 C | 8 |
| 14 | RHYS ALUN WILLIAMS ⚽ A ↓ | OWEN I. | 9 |
| 16 | JULIAN WILLIAMS ⚽2 A | RHODRI DAFYDD ↓ | 10 |
| 20 | BEN FISHER 🟨 | PARRY R. ↓ | 11 |

**Substitutions**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13 | PAPIRNYK C. G | DAVIES E. | 12 |
| 7 | PRITCHARD C. A ↑ | EMYR A. ↑ | 14 |
| 11 | FOSTER C. | JONES R. ↑ | 15 |
| 12 | JONES A. ↑ | HUGHES M. ↑ | 16 |
| 15 | HUGHES R. A ↑ | OWEN D. | 17 |

**Team officials**

| | |
|---|---|
| WINSTANLEY A. Assistant Manager | JONES M. Coach |
| ROBERTS C. First Aider | WILLIAMS E. First Aider |
| PAPIRNYK C. Team Manager | DAVIES E. First Team Manager |

DOCSHED
RHAGLENNI FFEITHIOL

BEVERLEY JONES
HAIRDRESSING

ANDREW COOK
BARBERING

Kitchen Medic
07733 303353

HCS
PLUMBING & HEATING SUPPLIES LTD

SPECIALIST SUPPLIERS OF
- BOILERS
- RADIATORS
- BATHROOMS
- PLUMBING EQUIPMENTS

Unit 32, Gaerwen Industrial Estate, Gaerwen LL60 6HR Tel: 01248 422244 Fax: 01248 422255 www.heatingcontrolsandspares.co.uk




# DENBIGH TOWN 6
# Y FELINHELI 0

## 23.10.21 - Ardal North West, Central Park

**Colli oddi gartref 6-0 yn erbyn Dinbych oedd hanes Felin ar dydd Sadwrn yr 23ain o Hydref.**

Roedd Dyl Jr wedi trefnu fod y chwaraewyr a'r cefnogwyr yn cae bws i'r gêm ar ôl methiannau Fish. Yn anffodus fe darodd covid yng Nghaernarfon a Dyl Jr yn methu'r trip. Felly fyny i Al Em sortio pethau. Mae Euron yn licio cyrraedd llefydd yn brydlon felly mi oedd y rheolwr wrth ei fodd pan gyrrhaeddodd y bws Dinbych awr a hanner cyn y gêm! Mwy o amser i'r cefnogwyr i lysho a mwy o amser i Cra ag Iw Bonc i gymud shots!

Awr a hanner yn ddiweddarach a dechreuodd y gêm. Roedd Felin yn chwarae'n ok ond roedd peli dros top yr amddiffyn yn broblem. Sgoriodd Dinbych yn syth o gic cornel i wneud hi'n 1-0 ar ôl 5 munud. Sgoriodd y tim cartref 3 arall cyn hanner amser.

Ail hanner ac roedd Felin yn chwarae'n well ond dal i ddod oedd Dinbych. Cafodd y tim cartref 2 gôl arall yn yr ail hanner. Aled Pob y capten yn mynd yn rhwystredig wrth gicio chwaraewr Dinbych a derbyn cardyn melyn. Richie Cochbiwb ynwa yn gorfod cadw Pob yn saff! Un positif oedd gweld Return of the Shait ar ddiwedd y gêm.

Felly, peint yn nhafarn Dinbych cyn mynd nôl i Felin ar y bws - bob dim ar ôl hynny'n blur...








Adroddiad gêm

# ALED EM



# TIMAU / LINEUPS







Lluniau / Pictures: Phil Stead

**Denbigh Town FC – CPD Y Felinheli FC**
23. Oct 2021. 14:30

**6 : 0**

TIMELINE | **LINEUP** | INFO

| No. | Denbigh Town FC | | CPD Y Felinheli FC | No. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | GRIFFITH J. G | | HUGHES G. G | 13 |
| 2 | JONES S. | | JAPHETH C. | 2 |
| 3 | BARNETT M. | | CAIN R. | 3 |
| 4 | SHARPLES M. | | GRIFFITH A. C | 4 |
| 5 | JONES S. | | EMYR I. | 5 |
| 6 | ROBERTS K. | | JONES L. | 6 |
| 7 | TATE S. | | LLOYD-JONES G. | 7 |
| 8 | JONES S. 2 | | JOHN G. | 8 |
| 9 | JAKE WALKER 2 | | OWEN I. | 9 |
| 10 | ROBERTS M. C | | RHODRI DAFYDD | 10 |
| 11 | DAVEY L. | | PARRY R. | 11 |

**Substitutions**

| No. | Denbigh Town FC | | CPD Y Felinheli FC | No. |
|---|---|---|---|---|
| 12 | CRAVEN L. | | DAVIES E. | 12 |
| 14 | BARRATT J. | | EMYR A. | 14 |
| 15 | MORRIS M. | | JONES R. | 15 |
| 16 | WILLIAMS A. | | GRIFFITHS D. | 16 |
| 17 | THOMAS J. | | BROWN C. | 17 |

**Team officials**

| Denbigh Town FC | CPD Y Felinheli FC |
|---|---|
| PIERCE K. Coach | OWEN I. Assistant Manager |
| JONES B. Coach | JONES M. Coach |
| ROBERTS O. First Team Assistant Man... | OWEN D. Coach |
| NASH A. Team Helper | JONES M. First Aider |
| JONES D. Team Manager | DAVIES E. Team Manager |

Londis
Y Felinheli

LA MARINA
KITCHEN - BAR - CEGIN

HUWS GRAY

MORFA LODGE
HOLIDAY PARK



# LLAY WELFARE 4
# Y FELINHELI 4

## 16.10.21 - Ardal North West, The Ring

Pentref bach i'r gogledd o Wrecsam o'r enw Llay oedd yn ein croesawu ar gyfer ein degfed gêm yng nghyngrair ardal Gogledd Orllewin. Enw od medda un o'r chwaraewyr, oherwydd mae o'n cyfieuthu o Gymraeg i Saesneg o Llai i Llay ond dydi "Ll" ddim yn y wyddor Saesneg. Arsylwad craff. Pawb yn ymgynnull tu allan i Gae Seilo ar fore sych hydrefol, a confoi o geir yn dilyn eu gilydd ar y trip cyfarwydd i lawr yr A55. Gwrando ar Watford 0 - Lerpwl 5 yn fyw o Vicerage Road ar y radio yn hwyluso'r dreif hir gan obeithio am ganlyniad tebyg yn Llay! Ar ôl dipyn o lol efo'r SatNav yn trio ffeindio "The Ring", cyrraedd adeilad crand gwyn wrth ymyl cylchfan - y "White House" tybed? Ond dim sein o Joe Biden. Archwiliad mwy manwl o'r adeilad yn datgelu'r geiriau "Llay Miners Welfare Institute" ac yn cadarnhau ein bod ar gyrion Wrecsam ac nid Washington D.C.

Ar ôl canlyniad siomedig tro diwethaf, roedd yr hogia'n benderfynnol o roi gêm i Llay Welfare. Lle digon difyr, gyda cae criced, bowls a pel-droed ynghlwm yn yr un Clwb. Cŵn Poeth a panad ardderchog. Yn anffodus Llay aeth a hi yn gynnar yn y gêm, "ugain mewn ugain" - rhif ugain Jonny Taylor yn ei gwneud hi'n 1-0 i'r tim cartref yn yr ugeinfed munud. Ond ymateb da gan Y Felinheli gyda Rhys "Archie" Parry yn sgorio i wneud hi'n 1-1 ar 26 munud. Trwy gydol y gêm roedd Taylor yn ddigwilydd iawn wrth yr ymwelwyr gan hyrddio geiriau cas at yr "away dugout", ond doedd Euron a Leni yn cymeryd dim nonsans ganddo. Gyda'r emosiynau'n rhedeg yn uchel, gorchmynnodd y reffari Liam Grey i bob aelod o'r ddau ddygowt eistedd i lawr mewn ymdrech i stopio petha fynd dros ben llestri. Stopwyd y chwarae am tua 10 munud yn yr hanner cyntaf, Iw Bonc yn mynd i fyny am sialens yn yr awyr a'r golgeidwad Kyle Flower yn glanio'n lletchwith ar ei ben-glin nes gorfod dod oddi ar y cae yn llipa i gael ei eilyddio.

Yr un stori ar ddechrau'r ail hanner, Llay yn gwneud hi'n 2-1 ar 48 munud, gôl gan Adam Davies. Ond dangos cymeriad wnaeth Y Felinheli. Foli Gruff John yn gwneud hi'n 2-2, Tom Wells yn gwneud hi'n 3-2, wedyn Y Felinheli yn ymosod, amddiffynwr Llay methu delio efo'r croesiad ac yn panicio cyn troi y bêl i fewn i'w gôl ei hun. 3-3. Rheolwr Llay Mike Gadie yn mynd yn wallgo efo'i amddiffynwyr. Y Felinheli'n cael y gorau ohoni. Felin yn ymosod eto a peniad gwych gan Gavin Lloyd-Jones yn gwneud hi'n 3-4, a cefnogwyr Felin wrth eu bodd.

Daliodd Felin tan 88 munud pan sgoriodd Dean Bryan i wneud hi'n 4-4. Yn anffodus cafodd Iw Eds gerdyn coch am ddadlau efo'r reff felly wôc cynnar i'r ystafell newid iddo. Ond dal ar wnaeth Y Felinheli i gael pwynt, sgôr terfynnol 4-4 a pawb yn ysgwyd llaw. Er na gipwyd y triphwynt bydd yr hogia'n llawn hyder ar ôl y perfformiad yma.

Roedd Cyri blasus yn disgwyl yr hogia yn y Clwb a digon o bynciau i'w trafod ar ôl gêm gyffrous iawn. Cafwyd stop yn nhafarn y Maelgwyn yn Nghyffordd Llandudno ar y ffordd adref am beint a lot o hwyl. Anghofiwch "comeback" Newcastle United yn erbyn Arsenal yn St James's Park yn 2011, neu y gêm honno a gostiodd y teitl i Manchester United yn erbyn Everton yn Old Trafford yn 2012, hon oedd y 4-4 "thriller" gora welishi erioed.

Adroddiad gêm

# STEFF EVANS





# TIMAU / LINEUPS

**Llay Welfare FC - CPD Y Felinheli FC**
16. Oct 2021. 14:30

**4 : 4**

TIMELINE | LINEUP | INFO

| No. | Llay Welfare FC | CPD Y Felinheli FC | No. |
|---|---|---|---|
| 1 | FLOWER K. G | HUGHES G. G | 1 |
| 2 | BRYAN D. C | JAPHETH C. A | 2 |
| 3 | ROBERTS A. | CAIN R. | 3 |
| 4 | TAYLOR L. | GRIFFITH A. C | 4 |
| 5 | MERRILL R. A | JONES L. | 5 |
| 8 | WELLS T. A | RHODRI DAFYDD | 6 |
| 9 | GOODBAND R. A | LLOYD-JONES G. 2 | 7 |
| 10 | HUGHES L. | JOHN G. | 8 |
| 11 | DAVIES A. A | OWEN I. | 9 |
| 16 | MOUNTFORD J. | EDWARDS I. | 10 |
| 20 | TAYLOR J. | PARRY R. | 11 |

## Substitutions

| No. | Llay Welfare FC | CPD Y Felinheli FC | No. |
|---|---|---|---|
| 6 | BICKERTON COLE L. | HUGHES M. | 12 |
| 7 | TURTON K. | EMYR A. | 14 |
| 14 | VENABLES J. | JONES I. | 15 |
| 17 | BULL E. | DAVIES E. | 16 |
| 18 | TAYLOR J. | OWEN D. | 17 |

## Team officials


| Llay Welfare FC | CPD Y Felinheli FC |
|---|---|
| HUGHES D. Coach | JONES M. Coach |
| THOMAS A. Coach | WILLIAMS E. First Aider |
| JONES K. First Aider | DAVIES E. First Team Manager |
| DAVIES M. First Team Assistant Man... | |
| GADIE M. Team Manager | |

Byw Bywyd
Living Life
EICH GOFAL YN FLAENLLAW
WHERE MOBILITY MATTERS

WATKIN JONES

Y GARDDFÔN
FELINHELI

MODURDY
FELINHELI
GARAGE LTD
07748307556



# HANES Y CLWB

Er mai dim ond ers 1977 y mae'r clwb presennol wedi' ffurfio, mae nifer o dimau wedi bodoli yn y pentref yn y gorffennol. Mae tystiolaeth o dîm yn y pentref yn y 1890au yn ogystal ag amryw o dimau yn y 1920au a 30au.

Mae 'na gofnod o Port Dinorwic yn ennill Cwpan Alves Cynghrair Caernarfon a'r Cylch yn 1945/46. Roedd y timau yma i gyd yn chwarae eu gemau cartref ar gae yn Stad y Faenol.

Cyn y clwb presennol, roedd tim yn y 1960au a chwaraeodd yng Nghyngrair Caernarfon a'r Cylch am ddau dymor. Roedd y clwb yma'n chwarae ar yr un cae a'r clwb presennol.

Ffurfiwyd y clwb presennol ar y 3ydd o Orffennaf, 1977 fel Portdinorwic Football Club, gan ymuno a Chynghrair Caernarfon a'r Cylch. Blwyddyn yn ddiweddarach, newidiwyd enw'r clwb i Clwb Pel Droed Y Felinheli (sef yr enw sy'n cael ei ddefnyddio heddiw).

Ennillodd y clwb Cynghrair Caernarfon a'r Cylch yn 1981/82 a 1982/83, ac yn 1983/84 ymunodd y clwb a'r cynghrair newydd, Cynghrair Gwynedd. Felin oedd ennillwyr cyntaf y gynghrair yma ac yn sgil hyn, cafwyd dyrchafiad i Gynghrair Undebol y Gogledd (The North Wales Coast League). Yn 1987/88, ennillodd y clwb eu tlws mwyaf sef y 'North Wales Coast Challenge Cup', a roedd y clwb yn ail yn yr un cystadleuaeth yn 1988/89 a 1989/90.

Yn 1991/92 cyrhaeddodd y clwb eu safle uchaf erioed, sef ail yng Nghynhrair

Undebol y Gogledd. Yn ogystal a hyn, gwelwyd y dorf mwyaf erioed yn Cae Seilo pan ddaeth tua 600 o bobl i weld gem olaf y tymor yn erbyn Llangefni Town i benderfynnu tynged y gynghrair. Ennillodd y clwb Cwpan Alves y Cynghrair Undebol yn yr un tymor gan guro Nantlle Vale.

Yn 1994/95, disgynodd y clwb yn ol i Gynghrair Gwynedd, ble treuliwyd y 6 tymor nesaf. Yn ystod y cyfnod yma, roedd llwyddiant i'r clwb yn Cwpan Barrit, ac yn 2001, ennillodd y clwb Gynghrair Gwynedd a cael dyrchafiad yn ol i Gynghrair Undebol y Gogledd. Yn y tymor cyntaf yn ol, gorffennodd y clwb yn hanner uchaf y tabl, ond nid oedd y tymor canlynol mor llwyddianus a disgynodd y clwb yn ol i Gynghrair Gwynedd. Roedd disgyniad arall y tymor canlynol yn ol i Gynghrair Caernarfon a'r Cylch.


Dros y blynyddoedd nesaf, roedd y clwb yn ail yn y tabl ar nifer o achlysuron, a ennillodd y clwb y NWCFA Junior Cup yn 2013 a 2014.

Yn 2013/14, cyflawnodd y clwb y trebl gan ennill y gynghriar, y Junior Cup a Cwpan Llun Mewn Ffram gan sicrhau dyrchafiad yn ol i Gynghrair Gwynedd.

Ar ol cyfnod byr o ddwy flynedd yng Nghynhrair Gwynedd, dyrchafwyd y clwb yn ol i system cynghreiriau yr FAW ar ol cyflawni'r dwbl gan ennill Cynghrair Gwynedd a Cwpan Gwynedd yn nhymor 2014/15.





# CLUB HISTORY

Although the current club was only formed in 1977, there have been many teams in the village in the past. There is evidence of a team in the village in the 1890s and various teams during the 1920s and 30s.

There's a record of Port Dinorwic winning the Caernarfon & District League Alves Cup in 1945/46. All of the above teams played their home games on a field within the Faenol Estate.

Before the current club there was a team in the 1960's that played in the Caernarfon & District League for two seasons, this club played on the same ground that the current club plays on.

The current club was formed on the 3rd of July 1977 as Portdinorwic Football Club and entered the Caernarfon And District League. A year later the name was changed to Clwb Pel Droed Y Felinheli (which is the name that is currently used).

The club won the Caernarfon And District League in 1981/82 and 1982/83, and in 1983/84 they entered the newly formed Gwynedd League, of which they were the inaugural champions and got promoted to the Welsh Alliance League (The North Wales Coast League). In 1987/88 the club won their highest honors the North Wales Coast Challenge Cup, the club were finalist in the same competition in 1988/89 and 1989/90.

In 1991/92 the club gained their highest league position of 2nd in the Welsh Alliance League, they also had their highest attendance of all time when

approximately 600 people turned up at Cae Seilo to watch the end of season title decider against Llangefni Town. Also that season, the club were the Welsh League Alves Cup Winners against Nantlle Vale.

In 1994/95 the club were relegated back to the Gwynedd League, where the club spent the next 6 seasons. During this period the club gained success in the Barritt Cup, in 2001 the club won the Gwynedd League, gaining promotion back to the Welsh Alliance League. After a relatively successful 1st season back with a top half finish, the 2nd season was not as impressive finishing at the foot of the table being relegated to the Gwynedd League. With a further relegation the next season to the Caernarfon District League.

Over the next few years the club were runners up a few times along with back to back NWCFA Junior Cup titles in 2013 and 2014.

In 2013/14 the club achieved the coveted League, Junior Cup and Llun Mewn Ffram treble achieving a promotion back to the Gwynedd League.

After a short two season spell in the Gwynedd League the club gained promotion back into the FAW's directly affiliated league system after winning the Gwynedd League and Cup double in the 2014/15 season.






PATRICK'S
IRISH BAR

G. ROBERTS
SAER COED / JOINERY

- Civil Engineering & Groundworks - Peirianeg Sifil a Gwaith Tir
- Drain Cleaning & Jetting - Glanhau a jetio draeniau
- Environmental Services - Gwasanaethau amgylcheddol

07876220571 - info@cromwell-services.co.uk

Cromwell Services

CHAS
Accredited Contractor
CHAS.co.uk

RONDO

sgorio

tegfan
Llanrug

Green Wood
Gelli Gyffwrdd

# BATHODYNAU £3
# BADGES £3




Mae bathodynnau newydd wedi eu creu i nodi ennill y gynghrair yn nhymor 2019-20. Mae un bathodyn yn costio £3 (postio yn ychwanegol os fydd angen). Cysylltwch a'r clwb drwy ebost: **post@cpd-y-felinheli.cymru**, cyfryngau cymdeithasol, neu'r rhif ffon **07917572305**.

New badges have been created to mark the 2019-20 league winning season. One badge costs £3 (plus postage). Contact the club by email: **post@cpd-y-felinheli.cymru**, social media, or phone **07917572305**.

# ARDAL NORTH WEST

## Tabl y Gynghrair / League Table

Wedi diweddaru 26.11.21 / Updated 26.11.21

| # | Team | Pl | HW | HD | HL | AW | AD | AL | W | D | L | F | A | Diff | Pts |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Denbigh Town | 13 | 7 | 1 | 0 | 3 | 1 | 1 | 10 | 2 | 1 | 50 | 13 | 37 | **32** |
| 2. | Mold Alexandra | 13 | 6 | 1 | 0 | 4 | 1 | 1 | 10 | 2 | 1 | 47 | 17 | 30 | **32** |
| 3. | Porthmadog | 13 | 5 | 1 | 2 | 5 | 0 | 0 | 10 | 1 | 2 | 48 | 14 | 34 | **31** |
| 4. | Llanuwchllyn | 12 | 6 | 0 | 0 | 3 | 2 | 1 | 9 | 2 | 1 | 34 | 12 | 22 | **29** |
| 5. | Llanrwst Utd | 14 | 4 | 1 | 2 | 4 | 2 | 1 | 8 | 3 | 3 | 32 | 18 | 14 | **27** |
| 6. | Saltney Town | 15 | 3 | 2 | 2 | 4 | 1 | 3 | 7 | 3 | 5 | 40 | 28 | 12 | **24** |
| 7. | Llay Welfare | 14 | 5 | 2 | 1 | 2 | 0 | 4 | 7 | 2 | 5 | 45 | 32 | 13 | **23** |
| 8. | Nantlle Vale | 15 | 5 | 2 | 0 | 2 | 0 | 6 | 7 | 2 | 6 | 28 | 23 | 5 | **23** |
| 9. | Rhostyllen | 14 | 1 | 2 | 4 | 4 | 0 | 3 | 5 | 2 | 7 | 32 | 31 | 1 | **17** |
| 10. | Brickfield Rangers | 16 | 4 | 0 | 4 | 1 | 1 | 6 | 5 | 1 | 10 | 37 | 44 | -7 | **16** |
| 11. | Llandudno Albion | 11 | 2 | 0 | 1 | 2 | 2 | 4 | 4 | 2 | 5 | 21 | 22 | -1 | **14** |
| 12. | Y Felinheli | 14 | 3 | 2 | 1 | 0 | 3 | 5 | 3 | 5 | 6 | 19 | 36 | -17 | **14** |
| 13. | Rhydywmyn | 14 | 3 | 1 | 3 | 1 | 1 | 5 | 4 | 2 | 8 | 23 | 51 | -28 | **14** |
| 14. | Brymbo | 16 | 2 | 0 | 5 | 2 | 1 | 6 | 4 | 1 | 11 | 24 | 55 | -31 | **13** |
| 15. | St Asaph City | 16 | 0 | 2 | 6 | 1 | 1 | 6 | 1 | 3 | 12 | 18 | 52 | -34 | **6** |
| 16. | Blaenau Amateurs | 16 | 0 | 1 | 8 | 1 | 2 | 4 | 1 | 3 | 12 | 14 | 64 | -50 | **6** |

# TYMOR 2021-22 SEASON

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10.07.21 | 14:00 | **Y Felinheli** | **4-0** | Mynydd Llandegai | Welsh Cup |
| 17.07.21 | 14:00 | **Y Felinheli** | **4-0** | Llanystumdwy | FAW Trophy |
| 24.07.21 | 14:00 | **Y Felinheli** | **2-0** | Waunfawr | Welsh Cup |
| 31.07.21 | 14:30 | Rhostyllen | **1-1** | **Y Felinheli** | League |
| 04.08.21 | 18:45 | **Y Felinheli** | **2-2** | Llanrwst | League |
| 07.08.21 | 14:00 | **Y Felinheli** | **1-2** | Porthmadog | FAW Trophy |
| 14.08.21 | 14:00 | Saltney Town | **3-2** | **Y Felinheli** | Welsh Cup |
| 18.08.21 | 18:30 | Nantlle Vale | **1-0** | **Y Felinheli** | League |
| 21.08.21 | 14:30 | Rhydymwyn | **1-0** | **Y Felinheli** | League |
| 25.08.21 | 18:30 | **Y Felinheli** | **0-2** | Blaenau Ffestiniog Amateurs | League |
| 28.08.21 | 14:30 | Saltney Town | **1-1** | **Y Felinheli** | League |
| 05.09.21 | 14:30 | Llay Welfare | **7-1** | **Y Felinheli** | League Cup |
| 18.09.21 | 14:30 | **Y Felinheli** | **2-2** | St Asaph City | League |
| 25.09.21 | 14:30 | Mold Alexandra | **4-0** | **Y Felinheli** | League |
| 02.10.21 | 14:30 | **Y Felinheli** | **3-2** | Brickfield Rangers | League |
| 09.10.21 | 14:30 | **Y Felinheli** | **3-2** | Brymbo | League |
| 16.10.21 | 14:30 | Llay Welfare | **4-4** | **Y Felinheli** | League |
| 23.10.21 | 14:30 | Denbigh Town | **6-0** | **Y Felinheli** | League |
| 05.11.21 | 19:30 | Porthmadog | **8-0** | **Y Felinheli** | League |
| 20.11.21 | 14:00 | **Y Felinheli** | **1-0** | Rhydymwyn | League |
| 27.11.21 | 14:00 | **Y Felinheli** | v | Rhostyllen | League |
| 11.12.21 | 14:00 | Llanrwst | v | **Y Felinheli** | League |
| 18.12.21 | 14:00 | Blaenau Ffestiniog Amateurs | v | **Y Felinheli** | League |
| 26.12.21 | 14:00 | **Y Felinheli** | v | Nantlle Vale | League |
| 05.02.22 | 14:00 | **Y Felinheli** | v | Saltney Town | League |
| 12.02.22 | 14:00 | St Asaph City | v | **Y Felinheli** | League |
| 19.02.22 | 14:00 | **Y Felinheli** | v | Mold Alexandra | League |
| 26.02.22 | 14:00 | Brickfield Rangers | v | **Y Felinheli** | League |
| 05.03.22 | 14:30 | Brymbo | v | **Y Felinheli** | League |
| 12.03.22 | 14:30 | **Y Felinheli** | v | Llay Welfare | League |
| 19.03.22 | 14:30 | **Y Felinheli** | v | Denbigh Town | League |
| 25.03.22 | 19:45 | Llandudno Albion | v | **Y Felinheli** | League |
| 02.04.22 | 14:30 | **Y Felinheli** | v | Porthmadog | League |
| 09.04.22 | 14:30 | Llanuwchllyn | v | **Y Felinheli** | League |




macron | ARDAL NORTHERN

OFFICIAL BALL PARTNER

LOCK STOCK SELF STORAGE

ARDAL NORTHERN

# Discount for all players and officials on our storage and fireworks




# 25% OFF

LOCK STOCK SELF STORAGE

# STORAGE FIRST 3 MONTHS






www.lockstock.biz
0808 100 1292

Terms & conditions apply:
See website for more details.
Applies to the first 3 months of storage only.
On presentation of Ardal League players and officials ID.
Not to be used in conjunction with any other offer.
Valid until 31st July 2021.

LOCK STOCK ARDAL NORTHERN **0808 100 1292** LOCK STOCK ARDAL NORTHERN

# CLWB 100

| | | |
|---|---|---|
| 1. EURON | 35. GWION EMYR | 68. LLIWEN |
| 2. IS BONC | 36. MOIRA B | 69. DION SHAIT |
| 3. LENNY | 37. DELYTH | 70. CONNOR J |
| 4. POB | 38. SIONED FIDDLER | 71. BORIS |
| 5. EIFION | 39. IW EDS | 72. ALED EM |
| 6. ANDREA | 40. HYWEL | 73. |
| 7. CARWYN DAF | 41. DYLAN JONES | 74. AL HUWS |
| 8. DAN | 42. IEU ROBERTS | 75. IOLO JONES |
| 9. GWEN J | 43. SIAN GWENLLIAN | 76 |
| 10. MERED | 44. | 77. HIMYRS |
| 11. DEI O | 45. DAFYDD PIN | 78. IFAN DAFYFDD |
| 12. SARA IW | 46. GWYNDAF ROWLANDS | 79. SGILL |
| 13. GWIL J | 47. DAFYDD JONES (IDD) | 80. GWENNO Bethel |
| 14. STEFF PARRY | 48. AMIE SGILL | 81. AL HEF |
| 15. SIONED JONES | 49. GUTO KEEPER | 82. SGOD |
| 16. MART | 50. ARCHIE | 83. DEI O |
| 17. ARWEL WILLIAMS | 51. DEI O | 84. |
| 18. RICH HUM | 52. DANIEL WILLIAMS | 85. CHRISTINE POB |
| 19. IW BONC | 53. SION BONC | 86.CASS |
| 20. TRYST | 54. ALWYN K | 87. BETH DAN |
| 21. TEGID | 55. HATTON | 88. MARI EM |
| 22. PHIL STEAD | 56. | 89. CERI POB |
| 23. RICHARD JONES | 57. | 90. |
| 24. NERYS J | 58. SION HUMPH | 91. BORIS |
| 25. ARWEL WILLIAMS | 59. STEFF P EVANS | 92. SIAN HUWS |
| 26. GARETH ROBERTS | 60. FIONA THOMAS | 93. NERYS BONC |
| 27.DAFYDD EVANS | 61. GRUFF JOHN | 94. |
| 28. DONNA WYN | 62. CARA CONNOR | 95. IFAN EMYR |
| 29. BARRY HUGHES | 63. WIL BACH | 96. ANNA JONES |
| 30. ELERI OWEN | 64. ELEN HUWS | 97. KRISTINA |
| 31. RHODS | 65. SARAH WILLIAMS | 98. WENDY ANDERSON |
| 32. DYL BONC | 66. DEIO GRUFF | 99. GARETH GRIFFITH |
| 33. ANDREW CACS | 67. | 100. GWAWR SHAIT |
| 34. MART | | |


Teejac
CLWB PEL-DROED
1977
Y FELINHELI
LLOFFT
CAFFI • BAR • BWYTY



LLOFFT

CAFFI • BAR • BWYTY



| RHEOLWR: EURON DAVIES | RHEOLWR: WARREN AYKROYD-DUCKETT |
|---|---|
| Chris Brown | Luke Christie |
| Ryan Liam Cain | Josh Jones |
| Carwyn Dafydd | Ryan Dacey |
| Trystan Dafydd | Rhys Hughes |
| Euron Wyn Davies | Sam Chesters |
| Meredydd Huw Derbyshire | Adam Willimas |
| Iwan Edwards | Drew Wickens |
| Rhys Edwards | Jamie Richards |
| Aled Emyr | Dean Jones |
| Ifan Emyr | Cam Thomas |
| Aled Wyn Griffith | Scott Swords |
| Dion Wyn Griffiths | Harley Steel |
| James Matthew Robert Hatton | Steven Allman |
| Aled Llyr Hughes | Kevin Roberts |
| Caio Rhys Hughes | Lee Mcburney |
| Guto Dwylan Hughes | Joe Garner |
| Martin James Hughes | Josh Lock |
| Matthew Hughes | Andrew Bithell |
| Connor Patrick Japheth | Will Nevitt |
| Gruff John | Tom Douglas |
| Dylan Michael Waters Jones | Steve Jones |
| Ifan Dafydd Jones | |
| Llion Wyn Jones | |
| Rhodri Dafydd Jones | |
| Richard Lloyd Jones | |
| Gavin Lloyd-Jones | |
| Dylan Meredydd Owen | |
| Iwan Gwilym Owen | |
| Rhys Sion Parry | |
| Owain Emyr Roberts | |
| Ifan Parry Stead | |
| Gwion Tegid | |
| Aled Williams | |

**Dyfarnwr** / **Referee:** Richard Burge
**Dyfarnwr Cynorthwyol 1** / **Assistant Referee 1:** Peter Brown
**Dyfarnwr Cynorthwyol 2** / **Assistant Referee 2:** Thomas Burge